# Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd – CYHOEDDUS

## COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

09:30 – 12:20 | 08/04/2025 | MS Teams

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Marian Wyn Jones |

| Yn Bresennol (Aelodau) | | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Marian Wyn Jones (Cadeirydd) | MW-J | Aelod Annibynnol, Cadeirydd | IGDC |
| Ruth Glazzard | RG | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Bwrdd | IGDC |
| Marilyn Bryan Jones | MB-J | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Yn bresennol | | | |
| Julie Ash | JA | Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | IGDC |
| Henry Bales | HB | Arbenigwr Atal Twyll Lleol Arweiniol | Caerdydd a'r Fro |
| David Butler | DB | Rheolwr Archwilio | Archwilio Mewnol PCGC |
| Stephen Chaney | StC | Pennaeth Archwilio Mewnol | Archwilio Mewnol PCGC |
| Nathan Couch | NC | Arweinydd Archwilio Perfformiad | Archwilio Cymru |
| Mark Cox | MC | Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid | IGDC |
| Chris Darling | CD | Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol \| Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |
| Ifan Evans (ar gyfer eitemau 4.2i a 4.2iii) | IE | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth | IGDC |
| Paul Evans | PE | Pennaeth Cydymffurfiaeth | IGDC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Ansawdd a Rheoleiddio | |
| Julie Francis | JF | Pennaeth Gwasanaethau Masnachol | IGDC |
| Martyn Lewis | ML | Rheolwr Archwilio TG | PCGC |
| Sam Lloyd (ar gyfer eitem 4.2iv) | SL | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | IGDC |
| Claire Osmundsen-Little | CO-L | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | IGDC |
| Julie Robinson | JR | Cydlynydd Llywodraethu Corfforaethol | IGDC |
| Laura Tolley | LT | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol \| Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |
| David Tomalin | DT | Arweinydd Archwilio Ariannol | Archwilio Cymru |
| Mike Whiteley | MW | Rheolwr Archwilio | Archwilio Cymru |

| Ymddiheuriadau | | | |
|---|---|---|---|
| Chris Moreton | CM | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Sicrwydd Busnes | IGDC |
| Alistair Klaas Neill | AKN | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | IGDC |

| Acronymau | | | |
|---|---|---|---|
| IGDC | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | AS | Archwilio a Sicrwydd |
| AIA | Awdurdod Iechyd Arbennig | DPIF | Cronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol |
| BAF | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | PCGC | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| DSPP | Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd | PSPP | Perfformiad Talu'r Sector Cyhoeddus |
| AED | Adeiladu ein Dyfodol | | |

| Rhif yr Eitem | Eitem | Canlyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 1 | MATERION RHAGARWEINIOL | | |
| 1.1 | Croeso a Chyflwyniadau<br>Croesawodd y Cadeirydd, Marian Wyn Jones, bawb i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.<br>Rhoddwyd croeso arbennig i'r rhai oedd yn bresennol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.<br>Cynhaliwyd y cyfarfod trwy Microsoft Teams ac atgoffwyd y rhai a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei recordio ac y byddai'n cael ei bostio ar wefan IGDC yn dilyn y cyfarfod. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.2 | Ymddiheuriadau am Absenoldeb<br>• Chris Moreton, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Sicrwydd Busnes<br>• Alistair Klaas Neill, Aelod Annibynnol (Is-gadeirydd) | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.3 | Datganiadau o Fuddiant<br>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant i'w nodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2 | AGENDA GYDSYNIO – I'W CHYMERADWYO | | |
| 2.1 | [Cofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfod 21 Ionawr 2025 – Cyhoeddus a Phreifat Cryno.]()<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**GYMERADWYO'R** cofnodion fel cofnod cywir o'r drafodaeth a fyddai ar gael i'r cyhoedd. | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |
| 2.2 | Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cydwasanaethau GIG Cymru | | |
| 2.3 | **Blaengynllun Gwaith**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** cynnwys Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.4 | **Adroddiad Safonau Ymddygiad**<br>Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, bod cyfradd cydymffurfio o 100% ar gyfer Datganiadau o Fuddiant wedi'i chyflawni ar gyfer band 8a ac uwch.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI'R** Adroddiad Safonau Ymddygiad | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.5 | **Cofrestr Sicrwydd Deddfwriaethol**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI'R** Gofrestr Sicrwydd Deddfwriaethol | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.6 | **Adroddiad yr Iaith Gymraeg**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** Adroddiad yr Iaith Gymraeg | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.7 | **Adroddiad Ystadau, Datgarboneiddio a Chydymffurfiaeth**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI'R** Adroddiad Ystadau, Datgarboneiddio a Chydymffurfiaeth | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.8 | **Adroddiad Diweddaru Cydymffurfiaeth Ansawdd a Rheoleiddio**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI'R** Adroddiad Diweddaru Cydymffurfiaeth Ansawdd a Rheoleiddio. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| RHAN 3 – BUSNES Y CYFARFOD | | | |
| 3.1 | **Cofnod Gweithredu**<br>Nododd y Pwyllgor fod pedwar cam gweithredu wedi'u nodi o'r cyfarfod diwethaf, a'u bod i gyd wedi'u cwblhau a'u dogfennu yn y Cofnod Gweithredu.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** statws y Cofnod Gweithredu. | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| RHAN 4 | ARCHWILIO AC ATAL TWYLL | | |
|---|---|---|---|
| 4.1 | **Adroddiad Cynnydd yr Archwiliad Mewnol**<br>Cyflwynodd Stephen Chaney (StC), Dirprwy Bennaeth Archwilio Mewnol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Gynllun Cynnydd yr Archwiliad Mewnol.<br>Darparodd StC yr uchafbwyntiau o'r adroddiad cynnydd gan nodi'r canlynol:<br>• Cwblhawyd y gwaith ar gyfer y flwyddyn 2024/25 i raddau helaeth, gyda'r adroddiad dilynol ar Argymhellion Archwilio yn y camau olaf.<br>• Roedd nifer o adroddiadau sicrwydd sylweddol eleni ond roedd wedi gostwng o gymharu â blynyddoedd blaenorol, a oedd i'w ddisgwyl wrth i'r sefydliad symud i 'Fusnes fel Arfer'. Amlinellwyd nifer yr achosion o sicrwydd a dderbyniwyd drwy gydol y flwyddyn, a oedd yn cynnwys un adolygiad ymgynghorol.<br>• Roedd Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ffurf drafft ac roedd yn safbwynt cadarnhaol ar y cyfan.<br>Cadarnhaodd StC fod y gostyngiad yn nifer yr adroddiadau sylweddol i'w ddisgwyl ac, o'i gymharu â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau eraill, roedd IGDC yn dal i fod mewn sefyllfa fwy cadarnhaol o ran allbwn archwilio.<br>Gofynnodd Ruth Glazzard (RG), Aelod Annibynnol, sut roedd y sicrwydd rhesymol ar gyfer Rheoli Rhaglenni (a dderbyniwyd yn eitem 4.2) yn cyd-fynd â'r ffaith bod IGDC wedi cael ei uwchgyfeirio o Lefel 1 'Monitro Arferol' i Lefel 3 'Monitro Uwch' ar gyfer y parth perfformiad sy'n ymwneud â rhaglenni mawr.<br>Hysbyswyd y Pwyllgor bod ffactorau allanol a oedd y tu hwnt i reolaeth IGDC wedi arwain at uwchgyfeirio rhaglenni, h.y. roedd IGDC wedi cael ei effeithio gan yr amgylchedd ariannol ac anawsterau cyflawni gyda rhanddeiliaid a Byrddau Iechyd eraill. Roedd yr adolygiad wedi codi pwyntiau ynghylch risgiau y dylid gweithredu arnynt, ond roedd yn cydnabod nad oedd o fewn cylch gwaith IGDC i ddileu'r risgiau'n llwyr. Roedd | Er sicrwydd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | argymhellion tebyg i'w gweld ar draws GIG Cymru, yn enwedig mewn achosion o weithio rhanbarthol a phartneriaethau.<br><br>Unwaith eto, roedd nifer fawr o'r adolygiadau wedi'u clystyru tua diwedd y flwyddyn ariannol a byddai'r cynllun yn cael ei ystyried tra ei fod yn y cyfnod drafft er mwyn ceisio creu cydbwysedd mwy cyfartal o adolygiadau ar gyfer y timau archwilio ac IGDC ar gyfer 2025/26.<br><br>Diolchodd y Pwyllgor i StC a'i dîm am y gwaith a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI'R** diweddariad Archwilio Mewnol er **SICRWYDD**. | | |
| 4.2 | **Adroddiad yr Adolygiad Archwilio Mewnol**<br><br>Darparodd StC drosolwg lefel uchel o'r pedwar adolygiad archwilio:<br><br>**Rheoli Rhaglenni**<br><br>Cafodd yr adolygiad sgôr Sicrwydd ***Rhesymol***.<br><br>Darparodd StC grynodeb lefel uchel o'r canfyddiadau:<br><br>• Edrychodd yr archwiliad ar y prosesau a ddefnyddiwyd ac ar y cyfan roeddent yn gadarnhaol, gyda methodoleg dda ar waith.<br>• Codwyd nifer o argymhellion, yn enwedig ynghylch y broses newid, yr amserlenni a'r adrodd, er mwyn eu gwneud yn symlach ac yn fwy effeithlon i bawb.<br><br>Ymatebodd Ifan Evans (IE), Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, ei fod wedi bod yn awyddus i gynnwys yr adolygiad hwn yn y cynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn gan fod y trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli rhaglenni yn newydd. Roedd yr adroddiad wedi rhoi argymhellion i IGDC i fyfyrio arnynt a gwella yn y meysydd hynny dros y 12 mis nesaf.<br><br>Trafododd y Pwyllgor sut oedd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni yn cael ei ddefnyddio o ran dysgu a gweithio mewn partneriaeth ehangach a gwneud penderfyniadau, h.y. wrth i ni symud ymlaen, beth ellir ei wneud yn wahanol i ddelio â materion anodd. Roedd sesiwn datblygu Cyflawni Rhaglenni wedi'i threfnu ar gyfer mis Mai 2025 a gofynnodd y | Er sicrwydd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pwyllgor i hyn gael ei ystyried yn y sesiwn honno.<br><br>Fframwaith Perfformiad<br><br>Cafodd yr adolygiad sgôr Sicrwydd *Rhesymol*.<br><br>Cynhaliwyd archwiliad y llynedd ar ansawdd data ac roedd adolygiad y Fframwaith Perfformiad yn gysylltiedig â'r adolygiad hwnnw. Ar y cyfan, roedd yr adolygiad yn gadarnhaol iawn. Roedd tystiolaeth ar gael a'r unig eithriad oedd y Ddesg Wasanaeth Perfformiad Gweithrediadau, lle'r oedd rhywfaint o anhawster dilysu rhai o'r gwerthoedd yn y tablau a'r siartiau ar y sleidiau.<br><br>Ymatebodd CO-L ar y canfyddiadau ei fod yn archwiliad cadarnhaol iawn, gyda mwy o waith yn cael ei wneud ar adrodd ar berfformiad, h.y. wedi symud i adroddiad misol. O ran y maes Menter Gwasanaeth, roeddent yn gweithio ochr yn ochr â'r Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau i weithredu offeryn perfformiad gwasanaeth newydd a ddylai arwain at weithredu dangosfwrdd llawer mwy craff.<br><br>Adolygiad yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR)<br><br>Cafodd yr adolygiad sgôr Sicrwydd *Rhesymol*.<br><br>Darparodd StC uchafbwyntiau'r adolygiad:<br><br>• Ymgymerodd yr adolygiad â gweithredu'r storfeydd data lleol, felly roedd yn asesiad eithaf eang o'r broses.<br>• Nid oedd pob canfyddiad o fewn cylch gwaith IGDC.<br>• Roedd y rhaglen yn perfformio fel y disgwyl.<br>• Roedd dau argymhelliad blaenoriaeth uchel yn ymwneud â chyllid.<br>• Roedd prosesau monitro mewnol da ar waith ac am y rheswm hwnnw rhoddwyd sicrwydd rhesymol iddo.<br>• Un pwynt allweddol oedd y defnydd o ddata personol a'r cyfyngiadau a oedd ar waith a arweiniodd at ei gwneud hi'n anodd gwneud y defnydd mwyaf o'r ganolfan ddata.<br><br>Ymatebodd IE fod yr adolygiad yn dangos rhai o'r problemau y mae IGDC yn eu hwynebu. O safbwynt ymateb y rheolwyr, roedd yn anodd ymateb gan mai Llywodraeth Cymru oedd yn bennaf gyfrifol am y ddau argymhelliad | | |

blaenoriaeth uchel gan eu bod nhw'n arwain ar y cyfyngiadau gyda data, ac ati.

Y Rhaglen NDR oedd y rhaglen flaenllaw i IGDC a Chymru, gyda'r datblygiad saernïaeth mwyaf datblygedig yn GIG Cymru. Dechreuodd Cam 4 wythnos yn ôl, gyda'r cyllid ar gyfer hyn ar gytundeb treigl tri neu chwe mis. Byddai IGDC wedi hoffi i hyn fod yn hirach ond roeddent yn deall y pwysau ac felly roeddent yn gweithio'n galed i sicrhau sefydlogrwydd. Mae IGDC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr Digidol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i weld beth ellir ei wneud i sefydlogi data/gwybodaeth ac i ddatgloi'r potensial.

Cyfeiriodd Chris Darling (CD), Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd, at bwynt blaenorol ynghylch y mecanweithiau y dylai'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni eu defnyddio. Gellid trafod y rhain yn y sesiwn ddatblygu i archwilio, ac efallai profi, gyda phartneriaid i weld beth fyddai'r ffordd briodol o uwchgyfeirio a thrafod y materion hyn.

### Rheoli Gwasanaethau

Cafodd yr adolygiad sgôr Sicrwydd *Rhesymol*.

Cyflwynodd Martyn Lewis (ML), Arweinydd Archwilio PCGC, yr adroddiad a rhoddodd yr uchafbwyntiau canlynol:

- Roedd strwythurau da ar waith i fonitro darpariaeth gwasanaethau.
- Un o'r pwyntiau allweddol oedd sut mae IGDC yn rheoli ei Gytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau) gyda chwsmeriaid.
- Roedd yr adolygiad yn cydnabod bod gwaith yn parhau gan IGDC i ddatblygu mwy o fetrigau ansawdd yn y CLGau.

Cadarnhaodd Sam Lloyd (SL), Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, fod yr adolygiad wedi edrych ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) mewnol ac allanol, h.y. CLGau lle mae IGDC yn dderbyniwr a lle mae'n contractio gan drydydd partïon masnachol a'r CLGau lle mae IGDC yn darparu i gwsmeriaid a rhanddeiliaid ar draws GIG Cymru. Roedd y rhan fwyaf o'r canfyddiadau'n ymwneud â'r CLGau olaf hyn. Nid yw IGDC yn gweithredu mewn amgylchedd masnachol na

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chystadleuol mewn gwirionedd, ond mae'r sefydliad yn gweld elfennau cynyddol o hyn. Roedd angen gwneud penderfyniadau strategol fel rhan o'r newid i saernïaeth y dyfodol ac mae'r Byrddau Iechyd yn ystyried eu strategaethau eu hunain ynghylch gwasanaethau fel y Cofnod Iechyd Electronig a darpariaethau'r gwasanaethau hynny. Roedd yr amgylchedd ariannu o dan bwysau felly roedd gofyniad i IGDC ddangos gwerth am arian yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>DDERBYN y ddau adolygiad archwilio er SICRWYDD. | | |
| 4.3 | Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26<br><br>Cyflwynodd StC y Cynllun Archwilio Mewnol. Cadarnhawyd mai dyma'r cynllun drafft a byddai'r fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf.<br><br>Cadarnhaodd StC, wrth ddatblygu'r cynllun, fod yr archwiliad wedi ystyried nifer y meysydd risg uchel ac un o'r ymarferion a gynhaliwyd oedd adolygiad o'r hyn a ganfuwyd ar draws sefydliadau eraill y GIG.<br><br>Nid oedd y cynllun yn derfynol a byddai cyfleoedd i adolygu a mireinio'r cynllun wrth i bethau ddatblygu. Roedd y gwaith ar gynllun 2025/26 i fod i ddechrau yn ystod yr wythnosau nesaf.<br><br>Hysbyswyd y Pwyllgor fod IGDC wedi gweithio gyda Gwasanaethau Archwilio PCGC wrth baratoi'r cynllun. Fodd bynnag, o ystyried y ffocws ar gyflawni yn hytrach na phroses ar rai pwyntiau a godwyd yn yr uwchgyfeirio, gellid ymgorffori'r pwyntiau hyn yn y cynllun. A gellid hefyd ymgorffori'r llythyr cylch gwaith diweddar yng ngweithgaredd archwilio'r flwyddyn nesaf.<br><br>Nododd y Pwyllgor fod nifer yr achosion o sicrwydd cyfyngedig wedi codi ar draws y system yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a bod hyn yn debygol o godi eto oherwydd pwysau ariannol, gweithredol a gweithlu.<br><br>CAM GWEITHREDU 20250408-A01 i adolygu'r cynllun yng ngoleuni'r drafodaeth ynghylch statws | I'w Nodi | CAM GWEITHREDU 20250408-A01 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | uwchgyfeirio a llythyr cylch gwaith IGDC.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI** Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 a'r Themâu a'r Tueddiadau a nodwyd o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. | | |
| 4.4 | **Diweddariad gan Bwyllgor Archwilio Cymru**<br><br>Cyflwynodd Nathan Couch, Mike Whiteley a David Tomalin o Archwilio Cymru ddiweddariad Archwilio Cymru, gyda'r uchafbwyntiau canlynol:<br><br>• Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer datganiadau ariannol 2024/25 ar y gweill, gyda phrofion manwl o'r datganiadau ariannol drafft i ddechrau ym mis Mai 2025.<br>• Diweddariad ar Archwilio Perfformiad – cyhoeddwyd yr adroddiad drafft sy'n deillio o'r adolygiad o drefniadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn ystod y cyfarfod.<br>• Roedd rhan un o'r adolygiad o Drawsnewid Digidol i fod i ddechrau cyn bo hir.<br>• Bydd rhan dau o'r adolygiad Trawsnewid Digidol, sy'n canolbwyntio ar rôl Arweinyddiaeth System IGDC, yn dilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gyda'r amserlen ddangosol yn nodi mis Hydref.<br>• Bydd y gwaith craidd ar yr Asesiad Strwythuredig a'r archwiliad dwfn ar Ystadau yn dechrau yn yr haf.<br><br>**Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Wasanaethau Canser, gan gynnwys Ymateb Rheolwyr Llywodraeth Cymru**<br><br>Rhoddodd Verity Winn, Archwilio Cymru, drosolwg lefel uchel o Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Wasanaethau Canser.<br><br>• Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi bod eisiau cynnal adolygiad o Wasanaethau Canser ers peth amser, a oedd wedi datgelu bod rhai rhwystrau cyffredin i gael diagnosis o ganser.<br>• Roedd yna ychydig o argymhellion a oedd yn cyfeirio at IGDC, fodd bynnag, roedd yn bwysig nodi nad adolygiad o IGDC oedd y gwaith hwn. | Er sicrwydd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Roedd darn pellach o waith wedi'i gynllunio i edrych ar agweddau ar Wasanaethau Canser ar gyfer pob Bwrdd Iechyd a byddai'r briff ar hyn yn cael ei rannu ag IGDC.<br>• Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2025 ac roedd rhai o'r pwyntiau allweddol yn canolbwyntio ar gynllun gwella canser.<br>• Roedd diffyg eglurder ynghylch cyfrifoldeb a gwendidau o ran gwneud penderfyniadau ac arweinyddiaeth genedlaethol.<br><br>Ers cyhoeddi'r adroddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ymateb ffurfiol ac wedi derbyn wyth o'r argymhellion.<br><br>Cynhaliwyd Ymchwiliad i ddeall y materion a chynhaliwyd y sesiwn dystiolaeth gyntaf ym mis Mawrth, gydag ail sesiwn i'w chynnal ar 1 Mai gyda Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG, a gellid ei gwylio'n fyw.<br><br>Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad a'i gael yn ddefnyddiol. Roedd yn trafod nifer o bwyntiau:<br><br>• Argymhelliad 2 ar Arweinyddiaeth Genedlaethol – cael mwy o eglurder ynghylch heriau cenedlaethol/lleol. Gan fod Gweithrediaeth y GIG wedi'i sefydlu'n ddiweddar, roedd hwn yn sefydliad arall i'w ystyried.<br>• Argymhelliad 8 ar Safonau Data – roedd rhywfaint o amwysedd ynghylch yr argymhelliad hwn gan mai dim ond Llywodraeth Cymru all orfodi safonau data. Roedd problemau gwirioneddol o ran cydymffurfiaeth y Byrddau Iechyd â safonau data Llywodraeth Cymru, ac effeithiodd hyn ar y gofrestrfa canser ac ansawdd y data sydd ar gael. Roedd yr argymhelliad yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn egluro pwy oedd yn gyfrifol am alw Byrddau Iechyd i gyfrif ynghylch safonau data.<br><br>Cynllun Archwilio Blynyddol<br><br>Cyflwynodd Nathan Couch a Mike Whiteley (MW), Rheolwr Archwilio, adroddiad ar y cyd gan roi'r uchafbwyntiau canlynol:<br><br>• Nododd cynllun archwilio 2025 y gwaith archwilio ar gyfer y flwyddyn, gyda dull yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | seiliedig ar risg.<br>• Roedd y ffi Archwilio wedi codi 1.7%. Fodd bynnag, byddai ad-daliad bach yn cael ei brosesu i'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn dilyn effeithlonrwydd archwiliad y llynedd.<br>• Roedd dwy risg sylweddol o ran datganiadau ariannol.<br>• Roedd y dyddiad cau wedi'i ddwyn ymlaen bythefnos eleni.<br>• Roedd gwrthdaro buddiannau posibl a amlinellwyd o dan Safonau Moesegol.<br>Llythyr Ymholiadau Archwilio<br>Darparodd David Tomalin (DT), Arweinydd Archwilio Ariannol, Archwilio Cymru, y pwyntiau perthnasol o'r Llythyr Ymholiadau Archwilio:<br>• Roedd y Farn Archwilio wedi ymdrin yn flaenorol â pha un a oedd y cyfrifon yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol a achoswyd gan dwyll neu wall arall.<br>• Roedd y Llythyr Rheolaeth i sicrhau bod hyn wedi cael ei ystyried gan y Rheolwyr a'r Pwyllgor fel y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'r datganiadau.<br>Diolchodd y Pwyllgor i Archwilio Cymru a'r tîm am y berthynas gadarnhaol barhaus.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**DDERBYN** Diweddariad Archwilio Cymru er **SICRWYDD,**<br>**NODI** Cynllun Blynyddol Archwilio Cymru,<br>**NODI** Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Wasanaethau Canser, gan gynnwys Ymateb Rheolwyr Llywodraeth Cymru; a<br>**NODI'R** Llythyr Ymholiadau Archwilio | | |
| 4.5 | **Traciwr Camau Gweithredu Archwilio**<br>Cyflwynodd Laura Tolley (LT), Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, y Traciwr Camau Gweithredu Archwilio.<br>Roedd y Cofnod Gweithredu Archwilio yn cynnwys cyfanswm o 35 o gamau gweithredu ar ôl derbyn pedwar adolygiad yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Nodwyd yr ystyriwyd bod 13 o'r rhain wedi'u cwblhau, roedd 22 ar y trywydd iawn i'w cwblhau, nid oedd yr un ohonynt nad oedd ar y | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | trywydd iawn i'w gwblhau, ac nid oedd yr un ohonynt wedi pasio'r dyddiad gweithredu. Roedd saith o'r camau gweithredu hyn yn gamau gweithredu preifat a byddai papur adroddiad sy'n amlinellu'r sefyllfa yn cael ei drafod yn y cyfarfod preifat.<br><br>Amlinellodd LT Themâu Archwilio Blynyddol 2024/25 a'r themâu a nodwyd.<br><br>• Yr angen am brofion cadarn ar gynlluniau adfer ar ôl trychineb a chynlluniau parhad busnes<br>• Ffocws ar adnoddau a chyfyngiadau staffio, er mwyn sicrhau bod cynlluniau IGDC yn cael eu cyflawni'n effeithiol<br>• Yr angen i wella adrodd ar berfformiad, gan sicrhau cysondeb a chywirdeb<br>• Yr angen i wella ymateb rheolwyr i gamau ac argymhellion archwilio, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni priodol<br>• Pwysigrwydd strategaeth fuddsoddi fel y mae'n ymwneud â'r agenda amgylcheddol a datgarboneiddio<br>• Yr angen am fodel ariannu cynaliadwy.<br><br>Diolchodd RG i LT am ddod â'r themâu archwilio at ei gilydd ac roedd yn gefnogol o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud mewn perthynas â thracio argymhellion Archwilio.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI** statws y Traciwr Camau Archwilio a'r Themâu Archwilio Blynyddol ar gyfer 2024/25. | | |
| 4.6 | **Adroddiad Diweddaru ar Atal Twyll Lleol**<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Diweddaru Atal Twyll Lleol ar gyfer chwarter 4.<br><br>Tynnodd Henry Bales, Pennaeth Atal Twyll, sylw at y gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod:<br><br>• Derbyniwyd pedwar atgyfeiriad yn y cyfnod. Roedd tri o'r rhain yn ymwneud â'r Bwletinau Gwybodaeth ac roedd y pedwerydd yn ymwneud â phryder ynghylch cyflogaeth eilaidd bosibl. Ymchwiliwyd i hyn a chaewyd yr achos heb | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ei ddyrchafu i ymchwiliad ffurfiol.<br>• Mae un ymchwiliad i dwyll posibl yn dal i fod ar agor ac yn parhau.<br>• Roedd y Polisi Gordaliadau Cyflogau Cymru Gyfan newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r tîm Atal Twyll adolygu pob gordaliad cyflog sylweddol cyn hysbysu'r gweithiwr am y mater.<br>**Cynllun Blynyddol y Gwasanaeth Atal Twyll 2025/26**<br>Cyflwynodd HB Gynllun Blynyddol y Gwasanaeth Atal Twyll ar gyfer 2025/26, a oedd yn nodi sut y byddai'r gwasanaeth yn bodloni'r gofynion Llywodraeth Leol.<br>Roedd 85 diwrnod wedi'u cynllunio, a oedd yn cynnwys adolygiad o Dwyll Digidol. Roedd y Gwasanaeth Atal Twyll wedi gweithio gydag IGDC ar y cynllun i fanteisio ar yr arbenigedd digidol ac edrych ar Atal Twyll drwy lens ddigidol.<br>Cadarnhaodd HB fod gan y Gwasanaeth Atal Twyll yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r cynllun fel yr oedd.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI'R** Adroddiad Cynnydd Atal Twyll a **CHYMERADWYO** Cynllun Blynyddol Atal Twyll 2025/26 | | |
| RHAN 5 | ADRODDIADAU LLYWODRAETHU | | |
| 5.1 | **Ffrwd Waith Cynaliadwyedd Ariannol – Adeiladu ein Dyfodol (BOF) a Dod o Hyd i Werth**<br>Cyflwynodd Claire Osmundsen-Little, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, uchafbwyntiau'r Ffrwd Waith Cynaliadwyedd Ariannol – Adeiladu Ein Dyfodol a Dod o Hyd i Werth, gan nodi'r canlynol: Mae'r rhaglen Adeiladu Ein Dyfodol wedi'i strwythuro o amgylch pum egwyddor strategol.<br>Yn ogystal, roedd y rhaglen yn edrych ar:<br>• ddeallusrwydd artiffisial a sut i'w ymgorffori yn y cynlluniau a'r prosesau yn IGDC.<br>• werth cymdeithasol a beth fyddai rôl IGDC yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | I'w nodi | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • yr agwedd cynaliadwyedd a sefydlogrwydd ariannol, a chreu model gweithredu sefydliadol fel ei fod yn fforddiadwy gyda buddsoddiad cyfyngedig.<br>• arbedion cylchol ac effeithlonrwydd, a dull clir rhag ofn y byddai angen dadfuddsoddi neu ddatgomisiynu gwasanaethau.<br><br>Trafododd y Pwyllgor y targed uchelgeisiol o arbed £48 miliwn dros bum mlynedd.<br><br>Ymatebodd COL mai drwy ymdrech tîm y byddai hyn yn cael ei gyflawni, a byddai gofyn cael lefel o ymrwymiad gan staff o ran y targedau i'w cyflawni. Roedd proses o newid ac roedd staff yn addasu. Roedd cyfres o weithdai yn cael ei chynnal i esbonio'r prosesau mewn ffordd annhechnegol.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>NODI'R Ffrwd Waith Cynaliadwyedd Ariannol – Adeiladu ein Dyfodol (BOF) a Dod o Hyd i Werth | | |
| 5.2 | Y Gofrestr Risg Gorfforaethol<br><br>Rhoddodd Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd, ddiweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol:<br><br>Mae 16 risg ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, a neilltuwyd tair risg i'r Pwyllgor:<br><br>• DHCW0331 – Cyllid Adnoddau Cyfnod Penodol – yn gysylltiedig â dau beth, lle mae aelodau staff yn gweithio ar brosiectau tymor byr gyda chyllid parhaol neu ar brosiectau tymor byr gyda chyllid tymor byr. Rhoddodd MC ddiweddariad pellach gan y Grŵp Rheoli Risg. Roedd y llythyr cylch gwaith wedi'i dderbyn ac wedi lliniaru'r risg uniongyrchol, ond roedd y risg hirdymor yn parhau.<br>• DHCW0337 – Model Ariannu Gwasanaethau a Datblygu Digidol Cynaliadwy – risg a oedd yn cynnwys y model cyllido sydd ei angen ar gyfer y dyfodol a lle'r oedd yn cael ei symud ymlaen i sail fwy cynaliadwy.<br>• DHCW0343 – Llythyr Cylch Gwaith 2025/26 – roedd y llythyr wedi dod i law ac roedd y sefydliad wedi anfon ymateb at Lywodraeth | Trafodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cymru. Roedd eitem ar yr agenda sy'n rhoi cyd-destun pellach ar y llythyr cylch gwaith a'i gynnwys. Roedd nifer o faterion yr oedd angen eglurhad arnynt gan Lywodraeth Cymru cyn cyflwyno'r llythyr i'r Bwrdd.<br><br>Nododd y Pwyllgor mai dyma'r tro cyntaf i Lythyr Cylch Gwaith gael ei dderbyn a'r gobaith oedd y byddai'n cael ei dderbyn yn gynharach y flwyddyn nesaf.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**DRAFOD** y Gofrestr Risg Gorfforaethol | | |
| 5.3 | **Dyraniad Cyllid CTCI 2025/26**<br><br>Cyflwynodd Claire Osmundsen-Little, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, yr eitem a chadarnhaodd ei bod yn dda cael sicrwydd ynghylch sefyllfa'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau) yn gynnar yn y flwyddyn.<br><br>Cyflwynodd Mark Cox (MC), Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid, set o sleidiau ynghylch y Llythyr Cylch Gwaith, gan dynnu sylw at y canlynol:<br><br>• Derbyniwyd y Llythyr Cylch Gwaith ar 14 Mawrth 2025 – a oedd yn eithaf hwyr o ran cyflwyno'r CTCI. Roedd dros 170 o dargedau a cherrig milltir yn y Llythyr Cylch Gwaith.<br>• Roedd cysoni wedi'i wneud o ran y CTCI a'r Llythyr Cylch Gwaith i sicrhau nad oedd unrhyw fylchau o ran adnoddau.<br>• Rhagdybiaethau cynllunio ariannol – nid oedd unrhyw amrywiad mawr.<br>• Dyraniad Rhaglen DPIF – rhaglenni lluosog ar draws y targedau i'w cyflawni.<br>• Buddsoddiad cyfalaf – wedi derbyn cyfanswm o £12.250m.<br>• Dim problemau mawr gyda thargedau'r CTCI a thargedau'r Llythyr Cylch Gwaith.<br><br>Nododd y Pwyllgor y lefel uchel o ofynion yn y Llythyr Cylch Gwaith ochr yn ochr â cherrig milltir y CTCI, a chytunodd nad oedd yn arferol i sefydliad gael cymaint o dargedau i'w cyflawni wedi'u mynegi fel hyn. Fodd bynnag, roedd yn braf nodi nad oedd unrhyw bethau annisgwyl yn y Llythyr Cylch Gwaith ac roedd yn glod i'r tîm | I'w nodi | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyllid a'r Gyfarwyddiaeth Strategaeth am lwyddo i alinio'r Cylch Gwaith â'r CTCI.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>NODI Dyraniad Cyllid CTCI 2025/26 | | |
| 5.4 | **Adroddiad Archeb Prynu Gwerth Uchel a Chronnus**<br><br>Cyflwynodd Mark Cox, Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid, yr Adroddiad Archeb Prynu Gwerth Uchel a Chronnus ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr i 17 Mawrth 2025, gan roi'r uchafbwyntiau a ganlyn:<br><br>• Ni chodwyd yr un archeb gwerth uchel o fwy na £0.75m y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.<br><br>• Roedd un cyflenwr wedi cyrraedd y trothwy archebion cronnus o dros £0.750m<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>NODI Diweddariad yr Adroddiad Archeb Prynu Gwerth Uchel a Chronnus | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 5.5 | **Colledion a Thaliadau Arbennig – diweddariad ar lafar**<br><br>Rhoddodd MC ddiweddariad ar lafar ar y Colledion a Thaliadau Arbennig, a chadarnhaodd nad oedd dim i'w ddwyn i sylw'r Pwyllgor. Fodd bynnag, bydd adroddiad ffurfiol yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>NODI'R diweddariad ar lafar ar Golledion a Thaliadau Arbennig | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 5.6 | **Adroddiad Cydymffurfiaeth Caffael a Chynllun Dirprwyo, i gynnwys diweddariad ar y Ddeddf Caffael Cyhoeddus**<br><br>Cyflwynodd Julie Francis (JF), Pennaeth Gwasanaethau Masnachol, yr Adroddiad Cydymffurfiaeth Caffael a Chynllun Dirprwyo. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw Gamau Gweithredu Tendr Sengl na gweithgaredd Rheolaethau Newid yn y cyfnod adrodd hwn.<br><br>Rhoddodd CO-L y wybodaeth ddiweddaraf am y Ddeddf Caffael Cyhoeddus a darparodd JF set o sleidiau i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor:<br><br>• Deddf Caffael 2023: i ddarparu cyfundrefn | Trafodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | symlach, fwy hyblyg a thryloyw ar gyfer Awdurdodau Contractio Cyhoeddus a lleihau rhwystrau.<br>• Daeth Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2024 i rym ym mis Mai 2023.<br>• Roedd goblygiadau i IGDC: Mwy o dryloywder, caffael cynaliadwy, prosesau caffael newydd.<br>• Roedd cynllun wedi'i roi ar waith i alluogi IGDC i fod yn barod pan fyddai'r ddeddf yn dod i rym.<br>• Roedd y camau nesaf wedi'u hamlinellu, gan gynnwys gweithredu Offeryn Rheoli Contractau i alluogi adrodd mwy effeithlon, cadarn a thryloyw.<br>Diolchodd y Pwyllgor i JF am y diweddariad manwl.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** Adroddiad Cydymffurfiaeth Caffael a Chynllun Dirprwyo, a'r Diweddariad ar y Ddeddf Caffael Cyhoeddus. | | |
| RHAN 6 | MATERION I GLOI | | |
| 6.1 | **Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor i'r Bwrdd**<br>Oherwydd cyfyngiadau amser trafodwyd hyn y tu allan i'r Pwyllgor. | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| 6.2 | **Unrhyw Faterion Brys eraill**<br>Ni chodwyd unrhyw faterion brys eraill i'w nodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 6.3 | **Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf:**<br>• 08 Gorffennaf 2025 | Nodwyd | Dim i'w nodi |